

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion Cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cyngorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr P. Drake, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cyngorydd B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

336 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

337 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr C.E.A. Champion a E. Penn.

338 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

339 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

340 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad (a'r adroddiad atodol) o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2024 gan y Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad, a'i ddiben oedd sicrhau craffu priodol ar y Cynllun a'r adroddiad.

Rhoddwyd cyflwyniad byr hefyd i'r Pwyllgor, gan gwmpasu meysydd allweddol ac uchafbwyntiau'r Cynllun a'r adroddiad, h.y. yr hyn yr oedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) yn ei olygu, gan fod y prif ddull y dylai awdurdodau priffyrdd lleol nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (HTC) lleol ac wrth wneud hynny, gwneud gwell darpariaeth i'r cyhoedd fwynhau amrywiaeth o weithgareddau hamdden awyr agored. Amlinellwyd hefyd y rhesymau dros angen CGHT (a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni dyletswyddau statudol a sut y gwnaeth y Cyngor gyflawni ei Amcanion Lles a Gwella). Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r CGHT, ystyriaethau a newidiadau i'r Cynllun o'i iteriadau blaenorol, y broses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid amrywiol a grwpiau diddordeb hyd at ei ystyriaeth gan Gabinet Cyngor Bro Morgannwg a'r camau nesaf.

Codwyd nifer o gwestiynau a sylwadau yn y cyfarfod ar yr eitem hon, a oedd yn cynnwys y canlynol:

Cododd y Cynghorydd Hooper nifer o sylwadau ac ymholiadau yn gofyn a ellid cyflawni'r camau gweithredu hirdymor a nodwyd yn yr adroddiad a'r Cynllun erbyn 2034/35, am fwy o fanylion am farn y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun, pa mor ymgysylltiedig oeddent ac a wnaethant gydnabod manteision HTC ac yn olaf, ynghylch hygyrchedd a oedd, yn ogystal â defnyddwyr cadair olwyn, hefyd yn cynnwys grwpiau eraill posibl o bobl ac unigolion a allai gael cael mynediad at hawliau tramwy cyhoeddus yn anodd a sut y gellid darparu ar eu cyfer. Esboniwyd, o ran hygyrchedd, fod ymgynghorydd allanol wedi cynnal arolwg yn ddiweddar, a oedd yn cyfeirio at nifer o gadeiriau olwyn wedi'u haddasu'n arbennig ac yn edrych nid yn unig ar amodau'r ddaear a'r tir ond hefyd rhwystrau i fynediad fel camfeydd a gatiâu a allai fod yn heriol hyd yn oed i bobl nad oedd ganddynt anabledau neu gyflyrau eraill a allai eu hatal rhag defnyddio'r rhain. Byddai crynodeb o'r canfyddiadau hynny a rhai o'r cyfleoedd gwella yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law. O ran yr ymgynghoriad cyhoeddus, gwnaed hyn beth amser yn ôl a byddai gwybodaeth am hyn yn cael ei cheisio a'i throsglwyddo i'r Pwyllgor hefyd.

Ailadroddodd y Cynghorydd Wiliam y mater pwysig o fynediad i bobl anabl at lwybrau a hawliau tramwy eraill gyda hyd yn oed llwybrau haws yn anodd i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl eraill ag anabledau. Roedd yn dda clywed bod y tîm perthnasol yn ymchwilio i hyn ac yn ddelfrydol dylid cynnal archwiliad i'r maes hwn. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd am y cyfeiriad yn y Cynllun at lwybr troed Cwm Ciddy i Borthceri ac a ellid cadarnhau pe bai'n llwybr ceffyl hynafol, oherwydd budd helaeth y cyhoedd yn hyn. Esboniwyd bod y Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaeryddol, system fapio a oedd yn darparu rhestr o'r holl gategoriâu a statws llwybrau, ac ati. Byddai'r Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad neu ei dîm yn ymchwilio i'r mater hwn ac yn adrodd yn ôl i'r Cynghorydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Norman at y parc chwarae newydd yn Llanilltud Fawr a chododd problemau yn ymwneud â'r pwyntiau mynediad ato a oedd yn broblem i bobl sy'n defnyddio pramiau neu fygis oherwydd bod gan bob pen y pwyntiau mynediad hyn giât fochyn yn ogystal â phroblemau y byddai defnyddwyr cadair olwyn ac ati yn eu cael wrth gael mynediad i'r parc neu'r clwb pêl-droed cyfagos. Gofynnodd y Cynghorydd a oedd cyllid ar gael i newid y rhwystrau posibl hyn i'r

pwyntiau mynediad i'r parc a'r clwb pêl-droed. Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno ychwanegu at gwestiwn y Cynghorydd beth oedd y ffordd orau o godi materion ac ymholiadau eraill gyda'r tîm perthnasol o fewn y Cyngor. Esboniwyd bod dau gyfeiriad e-bost generig y gallai Aelodau Etholedig neu aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio i gysylltu â'r tîm cysylltiedig, ond gwnaed y rhan fwyaf o ymholiadau a phryderon gan y cyhoedd drwy Cyswllt Un Fro (canolfan gyswllt Cyngor Bro Morgannwg) neu'n uniongyrchol i'r tîm ei hun. Croesawodd y tîm gyswllt gan Gynghorwyr a'r cyhoedd er mwyn mynd i'r afael â phryderon a fynegwyd. Esboniwyd bod gan y Cyngor contract torri a bod swyddog cynnal a chadw yn mynd o gwmpas pwyntiau mynediad a llwybrau o'r fath er roedd tîm bach iawn yn rhan o hyn yn gyffredinol a allai dim ond gweithredu cymaint ag y byddai adnoddau cyfredol yn ei ganiatáu. O ran gatiâu mochyn a phwyntiau mynediad eraill, roedd y tîm bob amser yn ceisio gwella'r rhain a dileu cymaint o gyfyngiadau â phosibl ond yn y pen draw daeth hyn i lawr i gost a chytundeb gyda'r tîrfeddianwyr perthnasol yn yr achosion hynny lle nad oedd y tir lle sefydlwyd y pwyntiau mynediad yn eiddo i'r Cyngor yn uniongyrchol. Nodwyd hefyd mai tîrfeddianwyr sy'n gwneud penderfyniad terfynol ond hefyd fod ganddynt gyfrifoldeb am gynnal a chadw'r adeileddau perthnasol yn y dyfodol gyda llawer ohonynt yn eithaf hapus i wella camfeydd neu gatiâu neu i gynyddu hygrychedd, er enghraifft dim ond cael bwlch yn lle. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda thîrfeddianwyr perthnasol, er weithiau efallai na fyddant yn fodlon gwneud newidiadau oherwydd bod pwyntiau mynediad perthnasol yn dynodi ffiniau hanesyddol ac ati. Awgrymwyd pe bai gan Gynghorwyr bryderon a materion tebyg y dylent gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog neu'r tîm cysylltiedig perthnasol.

Cododd y Cynghorydd Protheroe ymholiad ynghylch cynnal a chadw llwybrau a llwybrau ceffylau mewn perthynas â'r llwybrau blaenoriaeth y cyfeiriwyd atynt yn y Cynllun. Gofynnodd beth oedd yn ffurfio llwybr blaenoriaeth, yn enwedig gyda pherthnasedd i'r Fro wledig a'r ymarfer torri blynyddol a gynhaliwyd. Roedd trigolion yn ei hward wedi mynegi pryderon am rai llwybrau a oedd yn cael eu rhwystro oherwydd eu bod yn llawn tyfiant a oedd yn broblem debyg gyda llwybrau ceffylau hefyd. Esboniwyd y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Cynghorydd yn dilyn y cyfarfod o ran llwybrau blaenoriaeth ac ati, ond amlygwyd hefyd fod y prif rwydwaith o lwybrau yn cynnwys yr ardaloedd hynny a hyrwyddwyd yn Llwybrau'r Fro a deunydd darllen tebyg a oedd yn darparu ar gyfer ymwelwyr a thwristiaid i'r ardal. Hyrwyddwyd y llwybrau hyn hefyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a oedd hefyd yn dod o dan ardaloedd blaenoriaeth. O ran torri llystyfiant ac isdyfiant yn flynyddol derbyniwyd rhywfaint o gyllid drwy asiantaethau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer ardaloedd fel Llwybr Arfordir Cymru. Fodd bynnag, gan gyfeirio at effaith y tywydd gydag amodau gwlyb a chynnes yn annog twf yn y llwybrau hyn, nid oedd bob amser yn bosibl nac yn rhesymol torri ar adegau penodol o'r flwyddyn oherwydd ystyriaethau ynghylch bioamrywiaeth a gwarchod adar sy'n nythu mewn gwrychoedd a choed.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, gyda chaniatâd i siarad, ei fod am roi rhywfaint o eglurhad ar lwybrau a hawliau tramwy, gan ddweud y gallai hyn fod yn fater cymhleth o bosibl oherwydd tir preifat yn ogystal â thir sy'n eiddo i'r Cyngor a gedwir yng nghefn gwlad a mannau eraill. Er enghraifft, roedd gwahanol rannau o'r Awdurdod Lleol yn berchen ar dir y Cyngor, fel yr ardaloedd hynny yng nghefn gwlad a oedd yn cynnwys Cosmeston, a ddaeth o dan yr Adran Cefn Gwlad, tra bod parciau trefol yn dod o dan gyfrifoldeb yr

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau. Os nad oedd yr Aelodau'n siŵr pa Aelod Cabinet perthnasol i gysylltu ag ef awgrymodd y dylid cysylltu ag ef a'r Aelod Cabinet perthnasol arall, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy, ar yr un pryd a byddai un ohonynt yn rhoi ateb. Awgrymodd hefyd i'r Pwyllgor ei fod yn ystyried a ddylai Aelodau Etholedig hefyd gael mynediad i'r system gwybodaeth ddaearyddol ac y gallai hyn fod yn argymhelliad posibl o ran rhoi mynediad a hyfforddiant i Gynghorwyr i ddefnyddio'r system berthnasol a fyddai'n arbed amser i Aelodau Etholedig a swyddogion gan y gallai'r Aelodau edrych ar amryw o ymholiadau a materion yn uniongyrchol felly.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD hyfforddiant ar ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei ddarparu i Aelodau Etholedig er mwyn eu helpu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â chwestiynau ar dir, llwybrau ac ati a wneir gan drigolion y Fro.
- (2) BOD mwy o amlygrwydd yn cael ei roi i wybodaeth Hawliau Tramwy ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, h.y. ar sut y gall Aelodau Etholedig a thrigolion lleol roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am rwystrau a materion eraill yn ymwneud â Hawliau Tramwy, ac ati.
- (3) BOD ymgynghoriad ar Hawliau Tramwy yn y dyfodol yn cynnwys ac yn ymgysylltu'n weithredol â Hyrwyddwyr Aelodau Etholedig a grwpiau diddordeb allweddol.
- (4) YCHWANEGIR adroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy at Raglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Er mwyn i Aelodau Etholedig allu gofyn yn uniongyrchol am wybodaeth a'i darparu i drigolion ynghylch cwestiynau ar dir, llwybrau, ac ati.
- (2) Er mwyn sicrhau bod y pwnc hwn yn fwy hygyrch i Aelodau Etholedig a thrigolion Bro Morgannwg.
- (3) Er mwyn i ymgynghoriadau yn y dyfodol ar y pwnc hwn dderbyn gwybodaeth, arbenigedd a phrofiadau bywyd yr Aelod Hyrwyddwyr perthnasol a grwpiau budd allweddol, yn enwedig y trigolion hynny a wynebodd heriau wrth gael mynediad at lwybrau troed a hawliau tramwy eraill o fewn rhwydwaith Bro Morgannwg. .
- (4) Er mwyn diweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

341 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2024 gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, a'i ddiben oedd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried hyn fel rhan o raglen ymgynghori, gydag unrhyw safbwyntiau ac argymhellion ar gyfer newidiadau i'r dyfarniadau neu'r meysydd arfaethedig ar gyfer ffocws yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Cabinet (10 Hydref 2024) i'w hystyried cyn i adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Terfynol Bro Morgannwg gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet ac wedi hynny ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor, gan grynhoi pwyntiau allweddol y broses hon. Roedd hyn yn amrywio o ddiben y broses hon ("ymwreiddio diwylliant o berfformiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, hunanfyfrio a her i sicrhau gwelliant parhaus") hyd at o ble y daw arian y Cyngor a sut y caiff ei wario (daeth cyllid o sawl ffynhonnell, yn ogystal â'r Dreth Gyngor ac roedd y rhan fwyaf o'r gyllideb yn canolbwyntio ar addysg a gofal cymdeithasol), yn ogystal â'r camau nesaf, crynodeb a sgorau'r hunanasesiad, a meysydd sy'n dod i'r amlwg i Gyngor Bro Morgannwg ganolbwyntio arnynt.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd nifer o sylwadau ac ymholiadau eu gwneud gan Aelodau'r Pwyllgor.

Cododd y Cynghorydd Hooper nifer o ymholiadau a sylwadau yn gofyn a oedd termau neu categorïau eraill ar gael yn ogystal â "da" a "theg" fel sgorau ar gyfer yr hunanasesiad. Ychwanegodd ei bod yn ymddangos bod yr hunanasesiad yn fwy cytbwys nag iteriadau blaenorol ond ei fod yn dal i deimlo bod hon yn ddogfen wleidyddol ac felly Aelodau'r Cabinet a ddylai ei chyflwyno yn hytrach na Chyfarwyddwyr. Nododd hefyd nad oedd unrhyw gymariaethau uniongyrchol â dogfennau neu fersiynau blaenorol o'r Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol. Mewn ymateb cyfeiriodd y Cadeirydd at ei rhan yn y broses hunanasesu a herio a oedd yn gadarn ac yn dryloyw yn ei barn hi. O ran y categorïau a'r sgorau ar gyfer yr hunanasesiad, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y byddai'n rhannu'r termau naratif a sgorau perthnasol a ddefnyddir fel rhan o'r broses hon sydd, yn ogystal â chynnwys "da" a "theg" hefyd yn cynnwys categorïau yn amrywio o "ardderchog" hyd at "dda", "teg" a "gwael". O ran y gymhariaeth ag iteriadau blaenorol o'r broses hunanasesu flynyddol, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lleoedd yr Aelodau at y sleid yn y cyflwyniad a ddangosodd gipolwg o'r asesiad o berfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol a oedd yn rhoi data cymharol fel camau gweithredu yn erbyn mesurau perfformiad blaenorol a chyfeiriad teithio ar gyfer y rhain. Wedi hynny, awgrymodd y Cynghorydd y dylid gwneud y gymhariaeth o ran perfformiad yn gliriach i'r cyhoedd ac ar ôl i'r hunanasesiad blynyddol gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, dylid llunio crynodeb clir a chryno o'r ddogfen hon ar gyfer trigolion Bro Morgannwg er mwyn ei gwneud mor glir a hygyrch â phosibl iddynt.

Yn dilyn ymholiadau'r Cynghorydd Hooper, gofynnodd y Cadeirydd sut y byddai canlyniadau'r hunanasesiad yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y gellid defnyddio dogfen gryno gan ddefnyddio ffeithluniau

amrywiol er mwyn helpu i ddarlunio a gwneud yn glir yr hyn yr oedd y ddogfen yn ei ddweud, gan gynnwys cymariaethau blwyddyn flaenorol â pherfformiad. Gwnaeth y Cynghorydd Hooper awgrym pellach y dylid anelu'r ddogfennaeth at y trigolion hynny yn y Fro a fyddai'n draddodiadol yn ei chael yn anodd cael mynediad at ddogfennau o'r fath, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yr oedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID cyfeirio'r sylwadau canlynol i'r Cabinet fel rhan o'u hystyriaeth o Hunanasesiad Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023/24:

- Unwaith y bydd yr Hunanasesiad Blynyddol wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, bod crynodeb clir a chryno o'r ddogfen hon yn cael ei gynhyrchu ar gyfer trigolion Bro Morgannwg.
- Ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol ar yr Hunanasesiad Blynyddol, dylai'r Cyngor estyn allan i'r cyhoedd a grwpiau buddiant gyda chwestiynau mwy penodol ar gyfathrebu a hygyrchedd o amgylch y broses hon, yn enwedig gyda'r grwpiau hynny a allai ei chael yn heriol neu'n anodd cael mynediad at ddogfennaeth ysgrifenedig, ac ati. .

Rheswm dros yr argymhelliad

Helpu i lywio ystyriaeth y Cabinet o, ac ymagwedd Cyngor Bro Morgannwg at, fodloni gofynion perfformiad Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Bro Morgannwg 2023/24 (yn unol ag adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

342 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2024/25 (CL) –

Diben yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, gyda Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (1 Ebrill 2024 i 30 Mehefin 2024) tuag at gyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2024/25) fel sy'n cyd-fynd â'i Amcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, diwygiwyd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch1) dros dro, i alluogi'r Cyngor i barhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu (fel dileu dros dro y sgorau Coch, Oren, Gwyrdd ('COG')).

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodedb o'r cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o feysydd a theitlau, gan gynnwys yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i gyflawni, hyd at feysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg,

yn ogystal â meysydd sy'n peri pryder, wedi'u halinio â'r pedwar Amcan Lles ar gyfer y Cyngor, dan y Cynllun Corfforaethol.

Yn ogystal, dim ond pedwar dangosydd coch oedd ar yr adeg hon, ac amlinellwyd yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r rhain i'r Pwyllgor.

Wrth gyflwyno'r adroddiad a'r sleidiau a ddefnyddiwyd, cafodd nifer o sylwadau ac ymholiadau eu gwneud yn y cyfarfod a oedd yn cynnwys y canlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y prosiect Gwneud Tonnau ac a oedd unrhyw risgiau i'r prosiect hwn oherwydd materion cyllido. Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod gwaith yn parhau i gael ei wneud ar y Gronfa Ffyniant Bro fel y'i gelwid yn flaenorol a chytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU. Er nad oedd hyn wedi'i ddychwelyd eto, roedd y Cyngor yn dal mewn sefyllfa i barhau drwy ddefnyddio'r cyllid presennol a roddwyd i ddatblygu'r prosiect. Yn dilyn cyswllt â Llywodraeth y DU a gweision sifil, roedd y pwyslais ar barhau â'r gwaith hwn oherwydd y dyddiad cau cyfyngedig ar gyfer cyflawni hyn ac felly roedd yn rhaid i'r Cyngor geisio bodloni hynny, er byddai'r Cyngor yn ceisio ymestyn y dyddiad cau hwnnw maes o law trwy ymgynghori â Llywodraeth y DU o ystyried yr oedi a oedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor (fel etholiad y DU) fel yr oedd Cynghorau eraill wedi gwneud.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at y Cynllun Ynni Ardal Leol, fel y cymeradwywyd gan y Cabinet, ac a fyddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Esboniwyd mai'r nod oedd cyflwyno fersiwn derfynol i'r Pwyllgor a oedd yn cael ei pharatoi gan ymgynghorwyr ar hyn o bryd. O ran y maes hwn, esboniodd y Cadeirydd ei bod hi, fel rhan o'i rôl, yn eistedd ar bwyllgor craffu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gofynnodd i'r Aelodau anfon unrhyw faterion cysylltiedig ati er mwyn i'r fforwm hwnnw fynd i'r afael â'r rhain.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at y problemau parhaus yn Saint-y-brid a Channel View ynghylch carthffosiaeth, gan nodi mai dyma'r ail dro i dendr gael ei roi allan ac roedd yn amlwg bod angen datrys y broblem hirdymor hon er lles y trigolion lleol. Cyfeiriodd y Cynghorydd hefyd at ddatblygu economaidd cynaliadwy gan gyfeirio at yr unedau yng Nglannau'r Barri ar gyfer busnesau a pha gyfleoedd a oedd ar gael i fusnesau gael eu denu i'r ardaloedd hyn gan ddefnyddio cytundebau tenantiaeth mwy hyblyg ac arloesol, er enghraifft lle gallai busnesau amrywiol rannu cytundebau o'r fath h.y. gallai fod yn gaffi yn y dydd ac yn fwyty yn y nos er mwyn iddo fod yn rhatach i fusnesau sy'n sefydlu yn yr ardal. Esboniodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod yr unedau hyn yn eiddo preifat i gonsortwm o adeiladwyr tai gyda'r Cyngor yn ymgysylltu â'r rhain ac yn eu hannog i fod mor hyblyg â phosibl o ran sut y maent yn gosod yr unedau hynny ac i gynnwys asiantau a oedd yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn. O ran eiddo sy'n eiddo i'r Cyngor a sut roedd y Cyngor yn delio â'r prydles hynny, ceisiodd y Cyngor fod mor hyblyg â phosibl fel ar gyfer nifer o eiddo a gynhaliwyd ar Ynys y Barri a oedd â nifer o ddefnyddiau. O ran yr ymholiad ynghylch carthffosiaeth, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau ei fod yn cael cyfarfodydd wythnosol gyda'r Cyfarwyddwr perthnasol, ac y byddai'n anfon y pryderon hynny ymlaen at y Cyfarwyddwr. Yna byddai'n diweddarau'r Cynghorydd Protheroe a'r Cynghorydd Stallard, a oedd yn cynrychioli'r ardaloedd yr oedd y broblem hon yn effeithio arnynt.

Yn olaf, cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion da bod y Cyngor wedi sicrhau £249k i gefnogi'r coetiroedd ym Mhorthceri a bod y Strategaeth Goed bellach yn symud tuag at fabwysiadu llawn. Gofynnodd a oedd yr amserlenni perthnasol bellach yn hysbys oherwydd bod hyn wedi cael ei godi gan y Pwyllgor yn flaenorol. Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y byddai'r adroddiad cysylltiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref i'w graffu.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2024/25 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

343 CAU CYFRIFON 2023/24 (CAT) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol dros dro'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Wynebodd y Cyngor bwysau refeniw sylweddol yn ystod 2023/24, roedd pwysau penodol o ran pwysau chwyddiant, yn enwedig o ran contractau a phwysau cyflog (a oedd yn adlewyrchu costau byw, pwysau'r farchnad ac ymrwymiad y Cyngor i dalu'r cyflog byw gwirioneddol). Parhaodd y Cyngor hefyd i brofi pwysau galw sylweddol i gefnogi'r Gwasanaethau Plant, Digartrefedd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod 2023-24.

Roedd hyn yn cynnwys alldro dros dro'r cyfrifon, a gwblhawyd erbyn 29 Mehefin 2024, gyda'r dybiaeth y bydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2024, a fydd yn dilyn yr archwiliad allanol gan Archwilio Cymru. Roedd y rhain yn gosod y sefyllfa rheoli cyfrifon gyffredinol (gan gynnwys Atodiad 1).

Ar gyfer Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad, roedd y rhain yn nodi'r alldro cyllidebol a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Pwyllgor, ar gyfer y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thai a Lleoedd, yn y drefn honno. Roedd y pwysau cost perthnasol hefyd wedi'u nodi i'r Pwyllgor, yn ogystal â'r gwargedion perthnasol a'r arian wedi'i dynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.
- (2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor fel y nodir isod:
 - £2m o drosglwyddiad i gronfa wrth gefn newydd i wrthbwysu diffygion ysgolion ar sail dros dro yn 2024/25;
 - £80k i Gronfa'r Cyngor i wrthbwysu pwysau cyffredinol.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

344 CAU CYFRIFON CYFALAF 2023/24 (CAT) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol dros dro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd y cyfrifon, fel y cyfrifon refeniw, gyda'r Archwilydd.

Dangoswyd manylion fesul cynllun, a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu, yn Atodiad 1. Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 31 Mawrth 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Roedd angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm £5.395m yn hwyr yn y Rhaglen a nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £103.829m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £88.620m.

Er gwaethaf y ffaith bod cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd nifer o faterion, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau a phrinder adnoddau, braf oedd nodi bod Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ag alldro o £88.620m a bod 85.35% o'r rhaglen wedi'i wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd yr ymroddiad, yr ymrwymiad a'r gwaith caled ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £103.829m a llithriad net o £15.013m a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan Bwerau Brys i Raglen Gyfalaf 2024/25.

I'r Pwyllgor Craffu, roedd y sefyllfa ynghylch y gyllideb yn amrywiad o £4.278m yn erbyn Rhaglen wedi'i haddasu o £18.577m. Cofnodwyd mai £14.299m oedd yr alldro ar gyfer y Pwyllgor Craffu ac mai £4.096m oedd y llithriad. Roedd llithriad yn gysylltiedig ag ychydig o feysydd, fel cyllid Adran 106, hyd at y Cynllun Pum Milltir.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.
- (2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo yn y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i 31 Mawrth, 2024, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- (4) BOD y Pŵer Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r lliithriad fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhellion

- (1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

345 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (CAT) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 1 ar gyfer 2024/25. Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu galw heriol a phwysau chwyddiant gan barhau â'r pwysau gwasanaeth allweddol a welwyd yn sefyllfa alldro 2023/24 yn 2024/25. Cafodd y pwysau cost a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb 2024/25 eu haddasu i adlewyrchu'r cyllid a oedd ar gael, ac felly nid oeddent yn darparu cyllid llawn ar gyfer pwysau, ac roedd y pwysau hyn wedi parhau i gynyddu yn chwarter cyntaf 2024/25.

Roedd tystiolaeth o alw cynyddol mewn perthynas â Gofal Plant a Phobl Ifanc a Gofal Cymdeithasol Oedolion gan adlewyrchu mwy o achosion a chymhlethdod o ran angen yn ogystal â chynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a pheccynnau gofal. Parhaodd cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn faes o bwysau sylweddol o fewn Dysgu a Sgiliau gyda phwysau cyfatebol ar gostau trafndiaeth ysgol ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth ADY.

Ar draws y gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi yng nghyswllt cyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwch cyllido rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2024/25. Dim ond chwyddiant cytundebol cyfyngedig iawn a ddyrannodd y Cyngor fel rhan o gyllideb 2024/25 a dim chwyddiant cyffredinol ers rhai blynyddoedd a byddai hyn yn cael effaith gyffredinol ar wydnwch y gyllideb refeniw. Byddai'r oedi ar weithredu arbedion hefyd yn effeithio ar alldro 2024/25 ar draws gwasanaethau.

Roedd defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn oddeutu £13.629m, roedd gan y Cyngor ffrydiau gwaith amrywiol yn mynd rhagddynt i liniaru'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a lleihau gorwariant yn ystod y flwyddyn.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2024/25, gan gynnwys targed o £7.676m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn yr Atodiad. Parhaodd y Cyngor hefyd i fonitro'r gwaith o gyflawni arbedion 2023/24 heb eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, codwyd nifer o sylwadau ac ymholiadau yn y cyfarfod, gan gynnwys y canlynol.

Teimlai'r Cynghorydd Hooper fod yr un problemau ag a brofwyd yn y flwyddyn flaenorol o ran cyllid unwaith eto yn taro'r Cyngor a Bro Morgannwg eleni o ran arbedion nad oeddent yn cael eu cyflawni gyda'r un pwysau hefyd yn cael eu hwynebu, ac felly roedd yn pryderu nad oedd digon o le wedi'i roi o ran ystyriaethau cyllidebol ar gyfer y pwysau hyn. Roedd yn pryderu am y ffigwr £13m a mwy a'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn gyda hyn yn rhywbeth y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei ystyried a fyddai'n debygol o dyfu tuag at ddiwedd y flwyddyn gyfredol a bod yr adroddiad hwn yn rhybudd i'r Cyngor. Gofynnodd i'r Cadeirydd a oedd unrhyw Aelodau'r Cabinet yn bresennol yn y cyfarfod, ac a fyddent yn gallu siarad am hyn. Atebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau, gyda chaniatâd i siarad, gan nodi'r pwysau cost amrywiol a oedd yn cael eu profi yn ei bortffolio Cabinet fel y rhai o ran gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a'r angen i dalu mwy er mwyn cadw'r rhain a'r gystadleuaeth gysylltiedig ar gyfer gyrwyr o'r fath a staff arbenigol medrus eraill. Pe na bai codiadau cyflog o'r fath yn cael eu gwneud, yna byddai problemau difrifol i'r Cyngor o ran recriwtio ac ailhyfforddi gyrwyr a'r effaith ar wastraff a gwasanaethau eraill. Er gwaethaf y codiadau cyflog hyn, roedd Gwastraff a Sbwriel yn dal i ddarparu gwasanaeth cost-effeithiol iawn. Cyfeiriodd hefyd at yr adnoddau cyllidebol sylweddol a oedd eu hangen ar gyfer gwasanaethau allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Yn ogystal, ychwanegodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg, er bod hyn yn gyfnod hynod heriol i gyllideb a chyllid y Cyngor gyda chyllidebau'r dyfodol hefyd yn peri mwy o heriau, fod cyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethu ffyrdd fel rhan o gyllideb 2024/25 er bod angen cyllid pellach er mwyn cadw'r ffyrdd mewn cyflwr sefydlog. Roedd hyn yn golygu bod diffyg sylweddol o ran pwysau mewn meysydd fel y Gwasanaethau Cymdeithasol ond adroddwyd am y rhain yn gymharol ochelgar a bod y Pwyllgor yn cael ei gyfeirio ar ymdrechion i liniaru gorwariant yn ogystal â gweithio'n agos gyda meysydd fel ysgolion er mwyn helpu i leihau'r diffygion heriol y oedd rhai ohonynt yn eu hwynebu. Roedd gofyn i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys gynaliadwy fel ar gyfer 2025/26 a byddai angen gwneud hyn fel rhan o'r broses o osod cyllideb y byddai'r Pwyllgor yn ei gweld yn ystod y misoedd nesaf.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod.
- (2) NODI'r trosglwyddiadau a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

- (1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

346 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN, 2024 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gweithredol Cyfrifeg, a'i ddiben roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2024/25 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2024/25 a rhai'r blynyddoedd i ddod. Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £139.927m.

Roedd yn bwysig nodi bod llawer o feysydd yn parhau i brofi costau cynyddol ynglŷn â gweithredu cynlluniau. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau cyfredol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i ailtrafod tendrau a gyflwynwyd.

Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nid oedd unrhyw feysydd llithriad perthnasol i'r Pwyllgor ar yr adeg hon.

Byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd cyllido posibl yn cael eu nodi a'u harchwilio'n llawn.

Cyfanswm y gwariant ar 30 Mehefin oedd £953k ar gyfer y Pwyllgor Craffu hwn gydag alldro wedi'i ragweld o £23.495m.

Roedd pedwar Awdurdod Dirprwyedig hefyd a oedd wedi cael eu cymeradwyo oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd y cronfeydd allanol o £3.708m a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â grantiau Trafnidiaeth ar gyfer 2024/25.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a gynhoir ym mharagraff 2.4 ac y manylir arno yn yr adroddiad ym mharagraffau 2.19, 2.22, 2.24 a 2.25.

(3) NODI'r defnydd o bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.